Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Yr Athro Thomas Glyn Watlkin FLSW
Athro Anrhydeddus yn y Gyfraith,
Prifysgol Bangor

17 Mai 2018

Annwyl Yr Athtro Watkin

Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) – materion gweithredol

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ar **Graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cymru)** ym mis Chwefror eleni, rydym bellach yn ystyried y materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar y rheoliadau hynny.

Rydym wedi bod yn ystyried y gwelliannau y cytunwyd arnynt yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â'r Bil, a'r dull sifftio sydd i fod yn berthnasol i reoliadau a wneir o dan ei ddarpariaethau. Wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn flaenorol i ni.

Yn sgil newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech dynnu sylw at unrhyw faterion pellach yr ydych yn eu rhagweld, yn enwedig mewn perthynas â chraffu ar reoliadau, ac y credwch y dylai'r Pwyllgor eu hystyried. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe byddech yn nodi ym mhle y credwch y gellid cryfhau gweithdrefnau craffu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth baratoi ein hadroddiad i'r Cynulliad a phan fyddwn yn holi Arweinydd y Tŷ, Julie James AC, wrth iddi ddarparu tystiolaeth yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin. Felly, byddem yn croesawu eich sylwadau cyn gynted â phosibl.

Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynghylch y Bil, yn enwedig o ran y ddarpariaeth cymal 15 newydd, byddem yn ddiolchgar o'u cael hefyd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ganolfan Llywodraethiant Cymru, Cymdeithas y Cyfreithwyr, a'r Cymdeithas Hansard

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English